# Adroddiad Cyfarfod 08:05:24 Angharad Tomos

Cynhaliwyd ein cyfarfod fis Mai yn Neuadd Goffa Bethel nos Fercher yr 8fed o Fai.

Croesawyd yr aelodau gan JenRoberts, ein Llywydd. Cyflwynwyd ein llongyfarchiadau i Sion Elwyn mab Deilwen Hughes – un o'n haelodau, ar ei ddyweddiad â Miriam o Frymmawr, Pen-Llŷn.

Dymunwyd gwellhad buan i un o'n haelodau – Mary Evans sydd wedi bod yn bur wael yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond yn falch iawn o gael cyhoeddi ei bod yn dechrau gwella erbyn hyn.

Dymunwyd pob lwc hefyd i'r tim bowlio deg fydd yn cymeryd rhan mewn gêm yn ystod wythnos nesaf.

O ran gohebiaeth - Bydd Liz Watkin, yn ei swydd fel Ysgrifennydd y Clwb Garddio yn trefnu taith i weld gardd eiconig ar hen safle Neuadd Worsley, Salford, Manceinion. Bydd y daith yn digwydd ar ddydd Sadwrn y 15fed o Fehefin a bydd bws wedi ei drefnu i godi ym Methel am 9.20y.b.

Ein gwestai gwadd y mis yma oedd Angharad Tomos. Mae hi'n gyfarwydd i ni gyd fel awdur a llenor disglair yn ogystal a'i chfres enwog iawn sef cyfres Rwdlan a'i ffrindiau.

Bu'n llwyddiannus fel ennillydd y goron yn Eisteddfodd yr Urdd ddwywaith, Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith a gwobr Tir na-n-Og ddwywaith a gwobr Mary Vaughan Jones yn 2009 am ei chyfraniad i lenyddiaeth plant.

Ei thestun yn ein cyfarfod nos Fercher oedd Silyn Roberts a'i wraig Mary. Dywedodd Angharad fod hanes y ddau yma wedi dod yn obsesiwn iddi a dyna oedd canlyniad y nofel hyfryd honno 'Arlwy'r Sêr'. Rhannodd ei phortread o stori garu rhwng Silyn a Mary a'u gwaith ddi-flino dros sosoialaeth ac addysg y gweithwyr.

Roedd ei chysylltiad agos iddi rhwng y ddau gan fod ei thaid David Thomas wedi ysgrifennu cofiant am Silyn.

Teg dweud fod y gynulleidfa wedi eu cyfareddu gan yr hanes a'i chyflwyniad.

Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Deilwen Hughes.

Edrychwn ymlaen at ein trip diwedd tymor ar y 12fed o Fehefin pryd y byddwn yn ymweld ag Amgueddfa Forwrol Nefyn ac yn cael lluniaeth i ddilyn yn Caffi Ni.